OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2574

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

## RHAN 4

GOFYNION CYFFREDINOL A GORFODI

**Datganiad o ddiben**

**15.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio, mewn perthynas â'r gwaith gwarchod plant neu'r ddarpariaeth gofal dydd y'i cofrestrwyd ar ei gyfer neu ar ei chyfer, datganiad ar bapur ("y datganiad o ddiben") a rhaid i'r datganiad hwnnw gynnwys —

(a) datganiad o nodau ac amcanion;

(b) datganiad ynghylch ystod oedran, rhyw a nifer y plant y bwriedir darparu gofal ar eu cyfer gan y person cofrestredig ac ynghylch yr ystod anghenion y mae'r person yn bwriadu ei diwallu;

(c) datganiad ynghylch y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu i'w rhoi ar gael i blant perthnasol;

(ch) datganiad ynghylch y gweithgareddau sydd i'w darparu ac ynglŷn â'r iaith neu'r ieithoedd y darperir y gweithgareddau ynddynt; a

(d) datganiad o'r telerau ac amodau y darperir gofal yn unol â hwy i blant perthnasol pan fo'r person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n darparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant, neu y darperir gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, mewn modd sy'n gyson â'r datganiad o ddiben.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (2) nac yn rheoliad 37 sy'n gwneud yn ofynnol bod y person cofrestredig yn torri neu'n peidio â chydymffurfio â'r canlynol, nac yn ei awdurdodi i wneud hynny—

(a) unrhyw ddarpariaeth arall o'r Rheoliadau hyn; neu

(b) yr amodau sydd mewn grym ar y pryd mewn perthynas â chofrestriad y person cofrestredig o dan Ran 2 o'r Mesur.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig—

(a) cadw'r datganiad o ddiben dan arolwg, a phan fo'n briodol, ei ddiwygio; a

(b) pan fo'n ymarferol, hysbysu'r swyddfa briodol ynghylch unrhyw ddiwygiad o'r fath, 28 diwrnod cyn y bo'r diwygiad i gael effaith.